11 Rhagfyr 2021

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Daeth diwedd tymor a ninnau ar drothwy blwyddyn calendr newydd unwaith eto. Hoffwn achub ar y cyfle felly i ddiolch i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am y cydweithio hwylus a fu rhyngom yn ystod 2021 ac edrychwn ymlaen yn y flwyddyn newydd i barhau â'r un bartneriaeth.

Wrth i ni edrych ymlaen at ddathlu Gŵyl y Geni, sylweddolwn, i'r Cristion, bod rhyfeddod yr ymgnawdoliad, a dyfodiad duwdod mewn baban yn y preseb, yn cynnig gobaith bywiol ar ddiwedd 2021 fel ar ddiwedd pob blwyddyn.

Blwyddyn ddigynsail arall oedd 2021 mewn cynifer o ffyrdd. Caed tri mis o gyfnod clo ar ei dechrau, a nifer fawr o ddisgyblion a myfyrwyr yn profi'n bositif am Covid-19 wedi gwyliau'r haf. Dyfalbarhawn i ddarparu addysg o'r radd flaenaf yng nghanol amgylchiadau dyrys y pandemig.

FFARWEL

Dymunwn yn dda i Mr Stephen Davies wrth iddo ffarwelio ag Ysgol Gyfun Gŵyr i gymryd swydd yn Ysgol Dyffryn Taf. Bu Mr Davies yn aelod o staff yr Ysgol ers mis Medi 2019, yn addysgu Mathemateg. Bydd Mr Gareth Thomas hefyd yn gadael rhengoedd ein Cynorthwywyr Dysgu i symud i swydd arall. Diolchwn yn fawr iawn i'r ddau am eu cyfraniad i fywyd yr Ysgol dros y tair blynedd diwethaf.

YR ADEILAD NEWYDD

Ers i ni ddod yn ôl i'r Ysgol ar ddechrau Tachwedd, gwnaed defnydd helaeth o'r ffreutur newydd, ac mae'r Adran Gymraeg wedi ymgartrefu ar lawr cyntaf yr adeilad newydd. Mae'n braf ein bod wedi gwireddu ein cynlluniau, a bod llawer mwy o le i ddisgyblion ac athrawon ar y safle. Edrychwn ymlaen at symud mewn i'r Adrannau Drama a Cherdd newydd, wedi i'r gwaith adeiladau gwpla yno.

PROFION LFD

Hoffwn eich atgoffa bod angen i ddisgyblion (a staff) sy'n cymryd profion LFD bob bore Llun a bore Iau, barhau i wneud hynny dros wyliau'r Dolig. Gwneir hyn yn wyneb gofidiau am amrywiolyn newydd Covid-19

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R PROSBECTWS
Hoffwn hefyd eich hysbysu bydd Adroddiad Blynyddol 2021 yr ysgol a'r Prosbectws newydd 2022/23 ar gael ar wefan yr ysgol yn y flwyddyn newydd - copïau caled ar gael o'r ysgol ar gais o'r swyddfa.

TREFNIADAU DIWEDD TYMOR
Bydd modd archebu cinio Nadolig ar yr Ap Bwyd ar Ddydd Mercher 15 Rhagfyr.
Diwrnod olaf y tymor fydd Dydd Gwener 17 Rhagfyr, a bydd croeso i ddisgyblion dalu £2 at Gronfa Achub y Plant i wisgo siwmperi Nadolig ar y diwrnod hwnnw.
Bydd y bysys yn gadael yn gynnar ar ddiwedd Dydd Gwener am 1:30pm

TREFNIADAU DECHRAU'R TYMOR NEWYDD
Bydd diwrnod HMS i staff yr Ysgol ar Ddydd Mawrth 4 Ionawr, ac felly byddwn yn croesawu pob disgybl a myfyriwr nol i'r safle ar Ddydd Mercher 5 Ionawr 2022.

GWASANAETH Y NADOLIG
Recordiwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol ar yr 8fed o Ragfyr yn Eglwys Santes Catrin yng Ngorseinon. Cafwyd cyfraniad pwrpasol gan nifer o ddisgyblion a myfyrwyr yn cyfleu neges y Nadolig mewn darlleniadau ac eitemau. . Diolch yn fawr iawn i bawb a gymrodd rhan.
Byddwn yn rhannu'r manylion gyda chi am sut i wylio'r gwasanaeth cyn diwedd y Tymor.

DIOLCH
Wrth i mi ymddeol fel Pennaeth ar ôl pum mlynedd wrth y llyw, hoffwn ddiolch o waelod calon i ddisgyblion, staff a rhieni'r ysgol hynod hon, am bob cefnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw; bu'r Corff Llywodraethol hefyd yn gefn ac yn gymorth mawr i mi

Dymunaf yn dda i'm holynydd, Mr Jeffrey Connick, Dirprwy Bennaeth presennol yr Ysgol, wrth iddo gymryd at yr awenau ar Ionawr y cyntaf.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

11 December 2021

Dear Parents / Carers,

The end of term brings us to the threshold of a new calendar year once again. I would like to take this opportunity to thank you as parents and guardians for your co-operation during 2021 and the School looks forward to continuing the same partnership in the New Year.
As we look forward to celebrating Christmas, we realise, for the Christian, that the advent of God incarnate in the manger, offers real hope at the end of 2021 as at the end of every year.

2021 was, in so many ways, another unprecedented year. It began with three months of lock-down, and ended with a large number of pupils and students testing positive for Covid-19 after the summer holidays. We will persevere in providing the best education in the midst of the the turbulent storms of the pandemic.

FAREWELL
We wish Mr Stephen Davies well as he bids farewell to Ysgol Gyfun Gŵyr to take up a post at Ysgol Dyffryn Taf. Mr Davies has been a member of the School's Mathematics Department since September 2019. Mr Gareth Thomas will also be leaving the ranks of our Teaching Assistants to move to another post. We thank them both very much for their contribution to the life of the School over the past three years.

THE NEW BUILDING
Since we returned to the School at the beginning of November, extensive use has been made of the new canteen, and the Welsh department has settled on the first floor of the new building. It's great that we have made our plans a reality, and that there is much more space for pupils and teachers on site. We look forward to moving into the new Drama and Music Departments, once the building work is complete.

LFD TESTS
May I remind you that pupils (and staff) who take LFD tests every Monday and Thursday mornings, need to continue to do so over the Christmas holidays. This is due to concerns about the new Covid-19 variant.

ANNUAL REPORT AND PROSPECTUS

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

I would also like to inform you that the School's 2021 Annual Report and the new 2022/23 Prospectus will be available on the school website in the new year - hard copies available from the school on request from the office.

END OF TERM ARRANGEMENTS

Christmas lunch can be ordered on the Food App for Wednesday 15 December.
The last day of term is Friday, December 17, and pupils are welcome to pay £2 to Save the Children Fund to wear Christmas jumpers on that day.
Buses will leave early at the end of Friday at 1:30 pm.

ARRANGEMENTS FOR THE NEW TERM

There will be an INSET day for School staff on Tuesday 4 January, so we welcome all pupils and students back to the site on Wednesday 5 January 2022.

CHRISTMAS SERVICE

The School Christmas Service was recorded on the 8th of December at St Catherine's Church in Gorseinon. Many pupils and students made a purposeful contribution to conveying the Christmas message in readings and items. A big thank you to everyone who took part.
We will share with you the details of how to watch the Service before the end of term.

THANKS

As I retire as Headteacher after five years at the helm, I would like to sincerely thank the pupils, staff and parents of this remarkable school, for all their support during that time; the Governing Body has also been a great support and help to me.

I wish my successor, Mr Jeffrey Connick, the current Deputy Head of the School, well, as he takes over on the 1st of January.

A Joyful Christmas and a Happy New Year to you all.

Headteacher

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk